



## Ymateb i Ymchwiliad / Inquiry Response

Date / Dyddiad: 20 Mai 2020

Subject / Pwnc: Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Gwybodaeth gefndir am Gomisiynydd Plant Cymru

Prif nod Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Wrth ymarfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae cylch gorchwyl y Comisiynydd yn cwmpasu pob rhan o bwerau datganoledig Senedd Cymru sy'n effeithio ar hawliau a lles plant.

Mae CCUHP yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed. Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP yn sylfaen ar gyfer llunio pob polisi i blant a phobl ifanc ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth ymarfer eu swyddogaethau, i roi 'sylw dyledus' i CCUHP.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

Mae'r argyfwng presennol yn her difrifol i allu plant i fwynhau'r Hawliau Dynol a ddylai fod ganddynt o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Yn achos y rhan fwyaf o blant, mae'r cyfyngiadau presennol yn effeithio ar eu bywydau beunyddiol mewn modd maen nhw heb ei brofi o'r blaen.

Gallai'r sefyllfa hon effeithio ar nifer o hawliau dynol plant, gan gynnwys yr hawl i amddiffyniad rhag trais, camdriniaeth ac esgeuluso (erthygl 19); yr hawl i'r gofal iechyd gorau posib (erthygl 24); yr hawl i safon byw sy'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion corfforol a chymdeithasol (erthygl 27); yr hawl i gael mynediad at addysg (erthygl 28); a'r hawl i ymlacio a chwarae (erthygl 31) ymhlith llawer o rai eraill.

Ar draws y gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rydym wedi gweld gweithwyr proffesiynol ymroddedig yn addasu i amgylchiadau eithriadol o anodd wrth sicrhau mai lles pennaf plant a phobl ifanc sy'n cael y lle amlycaf yn eu gwaith. Mewn sawl maes mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllawiau'n gyflym, ac mae hynny wedi helpu i lunio ymatebion mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Hoffwn dalu teyrnged yn y fan hon i ymdrechion ac ymroddiad rhyfeddol ein gweision cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa bresennol yn golygu bod rhaid i oedolion sy'n gofalu am blant wneud penderfyniadau heriol mewn perthynas ag erthygl 3 – gweithredu er lles pennaf y plentyn. Bydd yr ymateb hwn yn cyfeirio at faterion y mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi eu codi gyda mi yn ystod cyfnod y Cyfyngiadau Symud sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc.

Rwyf wedi ymdrin â'r pryderon hyn ar wahân er hwylustod darllen, ond wrth gwrs gallai teuluoedd fod yn delio gyda nifer o'r materion hyn ar unwaith, ac nid bwriad yr ymateb hwn yw datgysylltu'r amgylchiadau hyn, sy'n aml yn gorgyffwrdd.

Rwyf wedi cyflwyno ymateb llawn i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar amrywiaeth o feysydd sy'n croesdorri pob agwedd ar fywydau plant, ond rwyf wedi canolbwyntio ar y meysydd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn yr ymateb yma.

## **Iechyd**

### *Iechyd Meddwl*

Yn ystod y cyfnod hwn, mae pryderon wedi cael eu codi gyda ni ynghylch effaith yr argyfwng presennol ar blant a phobl ifanc sydd eisoes yn profi salwch meddwl, ac ar y plant a'r bobl ifanc hynny y bydd profiad y cyfyngiadau symud a phryder ynghylch y pandemig byd-eang yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, gan olygu bod angen cefnogaeth arnyn nhw yn awr neu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'n anodd creu darlun o'r effaith ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc ledled Cymru, yn benodol, gan nad oes data ar gael i ni ei ddefnyddio o astudiaethau sydd wedi clywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc yng Nghymru. Fodd bynnag, mae rhai arwyddion ar draws y Deyrnas Unedig ynghylch pryderon plant a phobl ifanc am gael mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl, trwy [adroddiad YoungMinds](#) er enghraifft. Mae gennym hefyd dystiolaeth o [gyswllt cynyddol â ChildLine ynghylch materion iechyd meddwl](#) yn ystod y cyfnod yma. Er nad arolwg plant mo hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cynnal [arolygon wythnosol](#) o fwy na 500 o oedolion yn ystod yr wythnosau diwethaf, sy'n dangos bod rhwng 59% a 65% o'r ymatebwyr oedd â phlant ar eu haelwyd yn dweud eu bod yn pryderu 'llawer' am lesiant eu plant. Mewn [arolwg gan Adoption UK](#) o 660 o rieni/ofalwyr plant â phrofiad o ofal (oedd yn cynnwys rhieni o Gymru) a fyddai fel arfer yn yr ysgol, dywedodd eu rhieni/gofalwyr fod 50% o'r plant hynny yn profi trallod emosiynol a phryder.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda Senedd Ieuenctid Cymru, Plant yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i gynhyrchu [arolwg](#) fydd yn helpu plant a phobl ifanc i ddweud wrth Lywodraeth Cymru sut maen nhw wedi teimlo am y cyfyngiadau symud: sut mae hynny wedi effeithio ar eu hiechyd; unrhyw bryderon sydd wedi bod ganddyn nhw; sut maen nhw'n meddwl y gallai effeithio ar eu haddysg; a hefyd unrhyw bethau positif sydd wedi dod allan o hyn. Rydyn ni'n gobeithio bydd yr arolwg yma'n rhoi cipolwg pwysig ar y profiad o safbwynt plant a phobl ifanc Cymru. Yn ystod y dyddiau cyntaf ers ei lansio, mae dros 10,000 o blant a phobl ifanc 7-18 oed wedi cymryd rhan. Fel arweinydd y prosiect, byddwn ni'n darparu canfyddiadau o'r arolwg i Lywodraeth Cymru ar unwaith, er mwyn iddyn nhw gyfrannu at ddatblygu polisi ar gyfer anghenion cefnogi cyfredol a thymor hwy plant.

Mae fy nhîm a minnau wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog, swyddogion Llywodraeth Cymru, Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a chyrrff trydydd sector yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Rydyn ni hefyd wedi bod mewn cysylltiad yn wythnosol â dwy uned cleifion mewnol y GIG yng Ngogledd a De Cymru.

O ran gwasanaethau CAMHS yn gyffredinol, rwyf wedi cael fy sicrhau bod gwasanaethau CAMHS craidd yn dal i weithredu ym mhob rhan o Gymru, ac y bydd plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at help os bydd angen hynny arnyn nhw, hyd yn oed os gallai sut maen nhw'n rhyngweithio â gwasanaethau iechyd meddwl edrych a theimlo'n wahanol. Wrth gwrs, mae'n destun pryder nad yw'r mecanweithiau atgyfeirio arferol ar draws iechyd meddwl a gofal cymdeithasol (fel yr ysgol, ymweliadau Meddyg Teulu, gwasanaethau ieuenctid) yn cael eu cyrchu yn y ffordd arferol, ac rydyn ni'n deall bod nifer yr atgyfeiriadau wedi bod yn sylweddol is yn ystod y cyfnod hwn.

Yn achos y plant a'r bobl ifanc sy'n ffafrio cyswllt wyneb yn wyneb, fy nealltwriaeth i yw nad yw hynny ar gael iddyn nhw o bosib ym mhob rhan o Gymru. Y pryder yn y fan hon yw y gallai fod angen darpariaeth cleifion mewnol ar y plant hynny a allai fel arall fod wedi elwa o gyswllt wyneb yn wyneb, ac ymdopi gyda sesiynau therapiwtig rheolaidd wyneb yn wyneb.

O ran staffio, fy nealltwriaeth i yw, er bod rhywfaint o staff CAMHS mewn rhai rhannau o Gymru wedi cael eu hailgyfeirio, nad yw hynny wedi digwydd ar raddfa eang, a lle bu problemau staffio, y prif reswm am hynny oedd bod angen i aelodau staff hunanynysu.

Mae Byrddau Iechyd ledled Cymru wedi bod yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod eu sianeli cyfathrebu yn cyfleu gwybodaeth bwysig am iechyd y cyhoedd yn ystod y cyfnod yma. Mae gen i rai pryderon, fodd bynnag, ynghylch sut mae Byrddau Iechyd yn cyfathrebu, ar eu gwefannau a thrwy sianeli cyfathrebu eraill ar-lein, mewn perthynas â gwasanaethau CAMHS. Gallai teuluoedd dybio nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael yn yr un modd yn ystod y cyfnod hwn, a byddwn i'n hoffi gweld mwy yn cael ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau CAMHS yn cael eu hysbysebu'n glir fel rhai sy'n 'agored i weithredu'. O'n gwaith ymchwil mewnol ein hun, rydyn ni wedi gweld nad oes gan unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol dudalen glir ar eu gwefan yn manylu ar wasanaethau CAMHS a sut mae cael mynediad iddyn nhw. Fe wnes i ysgrifennu at Gadeirydd a Phrif Weithredwr pob Bwrdd Iechyd ynghylch y mater yma ar 29 Ebrill.

Adeg ysgrifennu hyn, rwy'n deall bod y ddwy uned i gleifion mewnol yng Ngogledd a De Cymru yn gweithredu, er eu bod yn wynebu heriau yn ystod y cyfnod yma, gyda rhai newidiadau i'w trefniadau gweithio. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau rhai o'r bobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn yr uned yn y gorffennol i'r gymuned, lle maen nhw'n cael eu cefnogi o bell gan weithwyr iechyd meddwl proffesiynol. Yn uned De Cymru, rydym wedi cael ar ddeall bod y system TG wedi achosi problemau, ac felly eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i alwadau fideo gyda'r bobl ifanc, gyda nifer o bobl ifanc yn cael sesiynau dros y ffôn yn unig. Rwyf wedi codi hyn sawl tro gyda Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion byrddau iechyd Cwm Taf a Bae Abertawe, gan mai dyma un o'r meysydd lle mae'r contract yng ngofal Abertawe ar ran Cwm Taf. Gwaetha'r modd, mae wedi bod yn anodd datrys y mater hwn, er ei fod yn deg dweud i ni gael ymateb cadarnhaol yr wythnos ddiwethaf, gan gynnwys ymweliadau gan dechnegwyr ar y safle. Serch hynny, rwyf wedi cael fy sicrhau bod y gefnogaeth i bobl ifanc dros y ffôn wedi parhau.

Yn amlwg, bydd teuluoedd yn pryderu ynghylch y trefniadau o bell i bobl ifanc, ac mae teulu wedi cysylltu â'n gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor oherwydd pryderon ynghylch diogelwch eu plentyn yng nghartref y teulu ar ôl cyfnod yn aros yn un o'r unedau. Mae'r unedau yn ein sicrhau bod unrhyw drefniadau cefnogaeth o bell yn digwydd ar sail glinigol, gan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau ehangach y person ifanc, a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus.

Soniodd yr unedau fod peth pryder ynghylch Cyfarpar Amddiffyn Personol (PPE) ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud, ond ers y dyddiau cyntaf hynny mae'r unedau'n dweud bod ganddyn nhw'r PPE angenrheidiol.

Rwy'n falch bod trefniadau wrth gefn wedi'u gwneud ar gyfer y ddwy uned cleifion mewnol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi staff ychwanegol rhag i niferoedd y staff ostwng i lefel anghynaliadwy, a chomisiynu gwelyau ychwanegol gan y sector annibynnol ar gyfer unrhyw gynnydd sydyn yn y nifer mae gofyn eu derbyn. Rwyf wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am sicrwydd ynghylch addasrwydd y gwelyau sydd newydd eu comisiynu, a sicrwydd ynghylch trefniadau monitro ansawdd ac archwilio. Er eu bod heb eu defnyddio

ar hyd y cyfnod yma, ar adeg ysgrifennu hyn (13 Mai), rwy'n deall bod ystyriaeth yn awr yn cael ei roi i ddefnyddio'r gwelyau hyn er mwyn rhyddhau capasiti yn uned de Cymru.

Rwyf wedi cael fy nghalonogi wrth weld Grŵp Achosion Iechyd Meddwl (MHIG) yn cael ei sefydlu'n gyflym, ac mae fy nhîm a minnau mewn cysylltiad â nhw'n rheolaidd, a hefyd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Cydlynu Iechyd Meddwl, sy'n darparu cyngor 24-awr i weithwyr iechyd proffesiynol, a swyddogaeth lledaenu gwybodaeth, sy'n adrodd i'r MHIG. Rwy'n cael fy nghalonogi hefyd o weld sefydlu Llinell Gymorth CALL i Gymru gyfan, fydd yn rhoi cyngor a chefnogaeth emosiynol i bob oed.

Rwy'n credu y gallai rhai ymatebion arloesol i'r argyfwng fod yn addawol o safbwynt trefniadau mwy hirdymor.

### *Trefniadau Gwarchod*

Bu peth dryswch yn ystod y cyfnod hwn ynghylch y sefyllfa lle mae llythyron gwarchod wedi cael eu dosbarthu gan y Prif Swyddog Meddygol, gyda Meddygon Teulu wedyn yn llunio'u rhestrau gwarchod eu hunain o'u cofnodion. Bu dryswch yn arbennig ymhlith teuluoedd plant ag anghenion meddygol perthnasol oedd wedi cael llythyron gwarchod gan eu Meddyg Teulu, ond nad oeddent ar y rhestr wreiddiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt ymarferol, os plentyn yw'r person sy'n cael ei warchod, gallai fod angen i'r rhieni ynysu eu hunain hefyd, gan eu bod yn methu rhoi'r plentyn mewn ystafell ar wahân yn ystod prydau bwyd, er enghraifft, fel mae canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu. Cysylltodd rhiant â ni yn pryderu oherwydd methiant i sicrhau blaenoriaeth wrth ddsbarthu nwyddau o archfarchnad, er eu bod wedi derbyn llythyr gwarchod oddi wrth eu Meddyg Teulu. Cafodd y mater yma ei ddatrys yn y diwedd, ond methodd y rhiant â chael atebion i'w chwestiynau nes i'n swyddfa, yn y pen draw, dderbyn gwybodaeth wedi'i diweddarau.

Rwy'n pryderu bod teuluoedd heb fod yn ymwybodol o'r broses, lle mae unigolion a ychwanegwyd at y rhestr warchod gan Feddygon Teulu wedyn yn cael eu cyflwyno i'r Prif Swyddog Meddygol bob wythnos, sy'n golygu bod oedi cyn i'r enwau hynny ymddangos ar systemau archfarchnadoedd. Wrth gwrs, bu'n rhaid rhoi'r holl brosesau hyn yn eu lle yn gyflym, ac felly mae problemau'n naturiol, ond mae'n dangos y buasai gwell tryloywder ynghylch y broses o gyflwyno rhestrau Meddygon Teulu i restr y Prif Swyddog Meddygol, ac yna ymlaen i archfarchnadoedd, wedi bod o fudd i deuluoedd fel yr un gysylltodd â'm swyddfa i. Rwy'n deall bod meddygfeydd yng Nghymru yn defnyddio amrywiaeth o systemau TG gwahanol, yn hytrach nag un system gyffredin, a gallai hynny fod yn cyfrannu at rai o'r problemau.

### *Mynediad at wasanaethau iechyd a defnydd ohonynt ar gyfer materion heb gysylltiad â'r Coronafeirws*

Wrth gwrs cafwyd adroddiadau niferus ynghylch y ffaith bod gostyngiad yn y niferoedd sy'n cyrchu gwasanaethau iechyd trwy adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac ar draws gwasanaethau iechyd ar gyfer materion heb gysylltiad â Covid 19.

Rydyn ni wedi clywed gan gyrff sy'n cynrychioli gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n rhannu pryderon bod cyswllt â phlant wedi lleihau yn ystod y cyfnod yma. Er bod rhai gwasanaethau fel ymwelwyr iechyd yn dal mewn cysylltiad â theuluoedd, nid yw hynny'n gweithredu'n union fel y byddai fel arfer. Hefyd nid yw pediatregwyr yn gweld plant yn dod atynt mor rheolaidd ag y byddent, er bod clinigau'n parhau i raddau helaeth, gan ddefnyddio dulliau fel ymgynoriadau fideo. Bydd hyn yn effeithio ar gyfraddau atgyfeirio amddiffyn plant, yn ogystal â sgrinio iechyd. Wrth i gyrff proffesiynol edrych tua'r cyfnod o adfer, maen nhw wedi rhannu pryderon gyda ni ynghylch y posibilrwydd o gyfuno sawl pwysau gwahanol: ôl-groniad o gleifion nad ydynt yn eu gweld oherwydd cyfuniad o oedi ar yr ochr glinigol, a theuluoedd sydd ddim yn dod ymlaen; cynnydd yn yr achosion newydd sy'n dod i'r gwasanaethau iechyd yn gyffredinol; tonnau pellach posibl o Covid-19, a allai fod ymhlith pwysau'r gaeaf; a gostyngiad yn y nifer sy'n manteisio ar frechiadau, a allai arwain at achosion o gyflyrau fel y frech goch.

Mae'n gwbl hanfodol ein bod ni'n canolbwyntio ar gynnal lefelau brechiadau.

Mewn perthynas â'r materion hyn, mae gweithwyr proffesiynol wedi codi pryderon gyda ni y gallai plant a phobl ifanc fod heb dderbyn diagnosis mor fuan ag y dylent oherwydd y sefyllfa bresennol. Er enghraifft, rwyf wedi clywed hanesion gan weithwyr proffesiynol bod niferoedd y plant sydd wedi cael diagnosis diabetes math 1 yn ymddangos yn sylweddol is yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng. Rwy'n pryderu y gallai sefyllfa debyg fod yn wir yn achos cyflyrau eraill lle'r ymddengys nad yw teuluoedd yn cyrchu gwasanaethau iechyd yn y modd y bydden nhw fel arfer.

Mae hyn eto'n amlygu'r angen, yn ogystal â'r neges eithriadol bwysig 'Aros Gartre, Achub Bywydau', am negeseuon cyhoeddus sy'n annog teuluoedd i geisio cymorth meddygol os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch iechyd eu plentyn. Ar 23 Ebrill fe wnes i ymuno â Choleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant a Iechyd Cyhoeddus Cymru i annog rhieni i geisio gofal iechyd ar gyfer eu plant yn ôl y galw.

Mae Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant wedi cyhoeddi [data defnyddiol](#) sy'n cynnwys gwybodaeth am yr effaith ar staffio a chapasiti o ran gwelyau i gleifion mewnol.

### *Trefniadau ymweld ar gyfer lleoliadau cleifion mewnol*

Yn ogystal ag ysgrifennu at yr holl Fyrddau Iechyd ar 29 Ebrill ynghylch dichonoldeb gwasanaethau CAMHS i deuluoedd yn eu sianeli cyfathrebu, fe wnes i hefyd godi mater rhoi cyhoeddusrwydd i'r [trefniadau ymweld diwygiedig ar gyfer lleoliadau iechyd i gleifion mewnol](#). Rwy'n pryderu y gallai'r neges bwysig bod un rhiant neu warcheidwad yn cael ymweld â phlentyn mewn lleoliadau newydd-eni a chleifion mewnol gael ei cholli yn y negeseuon cyffredinol ynghylch atal ymweliadau. Mae gwefannau Byrddau Iechyd yn amrywio o ran pa mor weladwy yw'r wybodaeth hon, ac mae'n anodd cael hyd i'r wybodaeth ar rai gwefannau. Rwyf wedi annog pob Bwrdd Iechyd i edrych ar eu trefniadau hysbysu presennol ar gyfer yr eithriadau i atal ymweliadau. Rwyf wedi cyhoeddi'r wybodaeth am drefniadau ymweld ar fy [hwb gwybodaeth ar-lein](#), sy'n cynnwys gwybodaeth ac adnoddau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

## *Deintyddiaeth*

Rwy'n pryderu ynghylch y statws Rhybudd Coch i ddeintyddiaeth yng Nghymru. Er ein bod ni'n derbyn bod y proffesiwn hwn yn un mewn sefyllfa agored iawn i niwed, a bod cleifion a gweithwyr proffesiynol yn wynebu lefel uchel o risg oherwydd nodweddion angenrheidiol y gwaith, rydym ni'n credu y dylai penderfyniadau fel hyn fod yn destun Asesiad Effaith ar Hawliau Plant, fel bod y canlyniadau i blant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn briodol, a bod yr ystyriaethau hynny'n cael eu cofnodi'n ffurfiol.

## **Gofal Cymdeithasol**

Yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng, mae fy nhîm a minnau wedi bod mewn cyswllt rheolaidd â'r Dirprwy Weinidog, swyddogion Llywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc, er enghraifft Arolygiaeth Gofal Cymru, darparwyr gofal maeth a chyrrff trydydd sector, er mwyn parhau i ddeall a monitro'r effaith ar wasanaethau. Yn ôl ein hasesiad, yn dilyn cyfnod cychwynnol o "ymateb argyfwng", pan oedd gwasanaethau'n addasu i ffyrdd newydd o weithio, rydyn ni wedi parhau i gael sicrwydd bod dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dal heb eu newid i raddau helaeth o ganlyniad i Ddeddf y Coronafeirws, a bod gwasanaethau'n parhau, gan ddefnyddio dulliau wedi'u haddasu. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Canllawiau ar ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn ystod pandemig COVID-19. Ar ôl eu cyhoeddi, bu fy nhîm yn rhannu sylwadau ar y canllawiau gyda Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn gliriach i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, ac mae'r canllawiau'n cael eu diweddarau ar hyn o bryd.

## *Amddiffyn Plant*

Er bod y dyletswyddau ynghylch darparu gwasanaethau cymdeithasol a'r cyfrifoldebau statudol cysylltiedig yn dal yr un fath ar hyn o bryd i blant, gall sut mae'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflwyno a'u cyrchu edrych a themlo'n wahanol iawn. Er enghraifft, gallai cyfarfodydd statudol ac ymweliadau gael eu cyflawni o bell, ac yn aml dim ond yr ymweliadau mwyaf "risg uchel" neu agored i niwed fydd yn digwydd wyneb yn wyneb. Fel y nodwyd eisoes, mae nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymdeithasol am gymorth wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, wrth i'r gwasanaethau atgyfeirio traddodiadol, fel ysgolion, grwpiau cymunedol a gwasanaethau iechyd weld llai o blant.

Mae gen i bryderon gwirioneddol ynghylch effaith y cyfnod hwn ar blant a phobl ifanc bregus sydd bellach yn methu dianc rhag anawsterau yn eu hamgylchedd cartref, ac a allai fod yn llithro "o dan radar" gwasanaethau cyffredinol. Rwyf hefyd yn pryderu y gallai teuluoedd oedd heb brofi anawsterau gartref o'r blaen ddechrau gwneud hynny o ganlyniad i straen cysylltiedig â Covid-19. Mewn perthynas â hyn, rwyf wedi ysgrifennu at Heddluoedd Cymru i ofyn am sicrwydd y byddant, o ddod ar draws plant a phobl ifanc tu allan i'w cartrefi, yn gweithredu mewn modd ymwybodol o drawma i ganfod pam nad yw'r plant gartref. Rwyf wedi derbyn sawl sicrwydd ysgrifenedig ynghylch hyn. Rwyf hefyd wedi croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y "plant agored i niwed" sy'n mynd i'r ysgol, ac rwy'n ymwybodol bod

canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ac addysgu ynghylch sut mae hybu hyn, heb achosi stigma, ar gael eu rhyddhau.

Rwy'n pryderu'n fawr ynghylch y sôn bod [cynnydd o 20% yn y galwadau](#) gan oedolion i linell gymorth yr NSPCC, os yw oedolyn yn pryderu am y posibilrwydd bod plentyn yn dioddef camdriniaeth emosiynol. Rwyf hefyd wedi clywed hanesion am ddarparwyr eiriolaeth annibynnol sydd wedi sylwi ar gynnydd yn nifrifoldeb neu ddwystr cynnwys eu galwadau gan bobl ifanc â phrofiad o ofal. Mae NYAS Cymru yn arbennig yn gwneud gwaith cymharol i ymchwilio'n ddyfnach i'r mater hwn. Fe ges i wybod hefyd bod Llamau wedi gweld cynnydd o 50% yn nifer y galwadau i'w llinell gymorth digartrefedd ieuencid, gyda rhai o sefydliadau partner yr Ymgyrch i Ddileu Digartrefedd Ieuencid yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n cael atgyfeiriad am gefnogaeth oherwydd bod teulu'n chwalu.

Yn y gwasanaethau cymdeithasol, mae'n galonogol i mi bod yr hawl i eiriolaeth sydd gan blant mewn gofal, fel y nodwyd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, wedi helpu i roi sicrwydd a dilyniant i blant a'u hawliau i gyfranogi mewn penderfyniadau. Mae darparwyr eiriolaeth a mynediad at Eiriolwyr Annibynnol yn ased gwerthfawr o ran sicrhau bod profiadau plant o'r argyfwng yn cael eu clywed a'u gwranddo. Rwy'n ymwybodol bod plant a phobl ifanc yn gwneud defnydd da o'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd a'i fod yn fesur diogelu ychwanegol yn y cyfnod hwn ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o ofal a phobl ifanc mewn sefyllfa fregus. Hefyd fe hoffwn i weld gwasanaethau eiriolaeth ar gael i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau iechyd ledled Cymru, a charwn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yr arfer da a welwn yn y gwasanaethau cymdeithasol o ran darparu eiriolaeth, a sut mae efelychu hynny mewn mannau eraill.

*Anghysondeb wrth gyflwyno canllawiau i wasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc a rhai i oedolion*

Cyflwynwyd canllawiau drafft ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion er mwyn ymgysylltu ar frys â rhanddeiliaid perthnasol ar ddechrau'r cyfnod yma, ond ni ddilynodd y canllawiau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i blant a phobl ifanc yr un fformat. Arweiniodd hyn at rywfaifaint o ddryswch i awdurdodau lleol, staff a'r rhai oedd yn derbyn gwasanaethau ynghylch fformat cefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol a chyflwyno gwasanaethau er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cadw pellter cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, ymweliadau amddiffyn plant i deuluoedd, trefniadau cyswllt ac ymweliadau statudol ar gyfer plant mewn gofal, a chefnogaeth i ymadawyr gofal. Bellach cyflwynwyd canllawiau, ond heb yr ymarfer ymgynghori byr er mwyn ymgysylltu ar frys, a ddilynwyd yn achos yr oedolion. Fodd bynnag, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn agored i awgrymiadau ynghylch mwy o eglurder yn achos rhai elfennau, ac fe gytunon nhw i ymgorffori awgrymiadau gan fy nhîm yn y canllawiau diweddaraf, sydd i'w rhyddhau'n fuan iawn.

Er ei fod yn ddealladwy oherwydd natur yr argyfwng, cyfrannodd yr oedi wrth gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol at beth dryswch ymhlith pobl ifanc oedd yn derbyn gwasanaethau ac ymhlith y rhai oedd yn eu cyflwyno. Yn ystod y cyfnod hwn y daethon ni'n ymwybodol o'r dulliau gweithredu anghyson oedd ar waith o ran ymweld, cefnogaeth a chyswllt.



O ran y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, rwyf wedi codi fy mhryderon bod rhaid sicrhau nad yw newidiadau i gymhwysedd o ran gwasanaethau oedolion yn effeithio ar unrhyw bobl ifanc sydd ar fin pontio i wasanaethau oedolion ychwaith. Rwyf hefyd yn pryderu'n arbennig am ofalwyr ifanc, sydd wedi cael ychydig iawn o wybodaeth neu ganllawiau penodol ar sut maen nhw i gael eu cefnogi yn ystod y cyfnod yma. Er bod gofalwyr ifanc yn gallu cyrchu darpariaeth ysgol, does gennym ni ddim llawer o wybodaeth ar hyn o bryd ynghylch faint o ofalwyr ifanc fydd yn manteisio ar y gefnogaeth yma sy'n cael ei chynnig.

### *Cael mynediad i Gefnogaeth*

Rydyn ni wedi clywed gan weithwyr proffesiynol am oedi wrth wneud atgyfeiriadau amddiffyn plant, ac maen nhw'n sôn wrthyn ni am anawsterau cysylltu ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn y lle cyntaf, neu eu bod wedi profi oedi wrth glywed yn ôl gan yr awdurdod lleol perthnasol. Rwy'n codi'r materion hyn yn rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru.

Hefyd mae cyrff trydydd sector wedi codi pryderon gyda ni bod rhai plant mewn gofal yn cael trafferth sicrhau mynediad i linellau Dyletswydd. Dywedir bod rhai plant mewn gofal wedi cael canllawiau aneglur ynghylch sut mae cael mynediad i gefnogaeth.

### *Darpariaeth addysg*

Rwy'n pryderu am y nifer isel o 'blant agored i niwed' sy'n cyrchu darpariaeth addysg trwy ganolfannau ysgol. Er bod y niferoedd wedi gwella'n ddiweddar, ers cyfnod Gwyliau'r Pasg, i gyfartaledd o [3.9% o blant agored i niwed yn bresennol](#) yn yr wythnos yn cychwyn ar 4 Mai, mae'r ffigur hwn, sy'n isel iawn, yn dal yn destun pryder mawr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno llythyr ynghylch yr angen am hybu defnydd o hyn mewn modd nad yw'n achosi stigma, ond bydda i'n monitro'n fanwl a welir gwelliant yn sgîl camau gweithredu Llywodraeth Cymru.

### *Diogelwch ariannol y rhai sy'n gofalu am blant a phobl ifanc*

Cysylltwyd â ni ynghylch cefnogaeth i ofalwyr Bywydau a Rennir. Nid yw gofalwyr yn gymwys i dderbyn y mesurau cefnogi a gyhoeddwyd ar gyfer pobl hunangyflogedig oherwydd eu bod yn derbyn taliadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau unigol ac awdurdodau lleol, ond heb wneud elw. Mae rhai gofalwyr Bywydau a Rennir, gan gynnwys y rhai sy'n darparu Cefnogaeth Ddyddiol a Thymor Byr a seibiant ar gyfer teulu a gofalwyr eraill, wedi gorfod rhoi'r gorau i ddarparu gofal oherwydd y mesurau a gyflwynwyd i arafu ymlediad Covid-19, felly mae eu hincwm wedi lleihau neu wedi dod i ben yn llwyr.

O ran gofal plant, os bydd pryderon ynghylch sefydlogrwydd ariannol yn parhau, bydd llawer o leoliadau/ddarparwyr yn cael trafferth gweithredu eto os na fydd y sefyllfa'n newid. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn dadlau o blaid cefnogi'r sector ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ogystal ag ystyried beth sy'n gallu cael ei gyflawni yma yng Nghymru. Mae'n bwysig bod y sector yma'n cael ei ystyried mewn

penderfyniadau ynghylch cynigion cymorth ariannol yma yng Nghymru, fel bod digon o leoliadau o ansawdd, a gefnogir yn dda, i blant ddychwelyd iddynt pan fydd hynny'n briodol.

Mae sawl rhiant wedi cysylltu â'm swyddfa ynghylch mynediad at ddarpariaeth gofal plant a thalu am ddarpariaeth nad oes ganddynt ganiatâd i'w defnyddio.

### **Materion ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Er bod gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-dynnu yn ystod yr argyfwng hwn, rydyn ni'n dal i weld anghytuno ynghylch y cyfrifoldeb am ofal plentyn neu berson ifanc, er enghraifft wrth wneud trefniadau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen lleoliad gofal cymdeithasol gyda mewnbwn iechyd meddwl, ond lle mae dadlau ynghylch ariannu'r lleoliad hwnnw. Mae hyn yn destun pryder, yn arbennig yn y sefyllfa argyfyngus hon, lle mae'n hanfodol gwneud penderfyniadau cyflym ynghylch gofal plentyn neu berson ifanc.

Rwy'n pryderu ynghylch effaith mesurau ynysu llym ar bobl ifanc fregus sydd eisoes yn byw mewn lleoliadau caeedig. Yn amlwg, mae'n bwysig bod profion ar gael lle bynnag y bo modd mewn lleoliadau fel y rhain, er mwyn i'r plant a'r bobl ifanc fedru symud o amgylch mor rhydd â phosibl, yn hytrach na chael eu cloi yn eu hystafelloedd drwy'r dydd oherwydd ofnau ynghylch lledaenu'r feirws.

#### *Symud i 'gyfnod o adferiad'*

Mae nifer o'r materion a amlygwyd yn yr ymateb hwn yn ymwneud â gwelededd plant, a mecanweithiau atgyfeirio, hysbysebu a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i ni ymateb i'r realiti newydd y cawn ein hunain ynddo, lle nad yw'r sefydliadau yr ydym yn dibynnu arnynt – ein hysgolion, gwasanaethau iechyd sylfaenol, cyfleusterau cymunedol – naill ai ar gael bellach fel y buont, neu wedi'u dyfarnu'n anhygyrch i blant a'u teuluoedd sy'n pryderu am ddod i gysylltiad â'r feirws, neu sy'n ansicr ynghylch a allan nhw gael mynediad iddynt. Ar yr adeg argyfyngus hon, mae plant bregus yn llai gweladwy, ac mae angen i ni wneud popeth a allwn i'w hannog nhw a'u teuluoedd i estyn allan am gymorth a chefnogaeth pan fydd angen hynny arnynt.

Wrth i ni symud i'r 'cyfnod o adferiad', bydd llawer o elfennau o'n system iechyd a gofal cymdeithasol wedi newid, a bydd angen i'r broses o 'adferiad' gymryd i ystyriaeth yr holl ddatblygiadau arloesol, a'r holl faterion a ddaeth i'r amlwg. Yn achos rhai plant a phobl ifanc, er enghraifft, gallai sesiynau therapi trwy gyswllt fideo yn lleoliad eu cartref fod yn welliant, yn achos eraill gallai niweidio eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Gallai fod gwersi i'w dysgu yma ynghylch darparu amrywiaeth o opsiynau gofal yn y tymor hwy.

Os ydym wedi pasio brig y feirws, dylen ni sylweddoli ein bod yn ffodus iawn, gan fod ein gwasanaethau wedi cael eu hymestyn i'r eithaf. Bydd angen i ni ailadeiladu system iechyd a gofal cymdeithasol sy'n ymateb i anghenion plant a phobl ifanc, gyda'r capasiti i ofalu'n briodol amdanynt pan fydd angen hynny.

Cyflwynwyd gan:

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sally Holland', written in a cursive style.

Yr Athro Sally Holland

Comisiynydd Plant Cymru